# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 1 TACHWEDD 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddu) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J C Bayliss | P M Black |
| J E Burtonshaw | M C Child | R A Clay |
| U C Clay | A C S Colburn | D W Cole |
| A M Cook | S E Crouch | N J Davies |
| P Downing | C R Doyle | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| F M Gordon | J A Hale | J E C Harris |
| T J Hennegan | C A Holley | P R Hood-Williams |
| B Hopkins | D H Hopkins | Y V Jardine |
| M H Jones | A J Jones | S M Jones |
| J W Jones | E T Kirchner | M B Lewis |
| R D Lewis | A S Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | P N May | P M Meara |
| G Owens | D Phillips | C L Philpott |
| J A Raynor | T H Rees | I M Richard |
| C Richards | P B Smith | R V Smith |
| R J Stanton | R C Stewart | C Thomas |
| C M R W D Thomas | L G Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | T M White |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, A M Day, V M Evans, L James, D J Lewis, C E Lloyd, K E Marsh, J Newbury, D G Sullivan a/ac G J Tanner

73. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni os nad oedd unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datganodd y Cynghorydd J E Burtonshaw fudd personol yng Nghofnod 80 “Datganiad Cyllideb Canol Tymor 2016/17”;

2) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M C Child, C A Holley, P M Meara a M Thomas fudd personol yng Nghofnod 82 “Adroddiad Blynyddol 2015/16 - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol”;

3) Datganodd y Cynghorydd A S Lewis fudd personol yng Nghofnod 83 "Aelodaeth Pwyllgorau";

4) Datganodd M Thomas fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 83 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 8" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

5) Datganodd y Cynghorydd C L Philpott fudd personol yng Nghofnod 85 "Hysbysiad o Gynnig".

**Swyddogion**

1) Datganodd Phil Roberts (Prif Weithredwr) fudd personol yng nghofnod 82 “Adroddiad Blynyddol 2015/16 - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol”.

74. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 22 Medi 2016.

75. **YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.**

Cyflwynodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

76. **CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.**

**Llongyfarchiadau**

**a) Gwobrau Gwaith Cymdeithasol Cymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW) Cymru 2016**

Roedd yr aelod llywyddu'n falch iawn o gyhoeddi y bu nifer o swyddogion y cyngor yn llwyddiannus yng Ngwobrau Gwaith Cymdeithasol BASW Cymru

2016. Mae'r gwobrau poblogaidd hyn sydd bellach yn eu 7fed blwyddyn yn agored i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru; p'un ai ydynt yn aelodau BASW neu beidio. Mae Gwobrau Gwaith Cymdeithasol BASW Cymru'n ceisio hyrwyddo agweddau cadarnhaol ar y proffesiwn Gwaith Cymdeithasol, arfer gwaith cymdeithasol a sefydliadau cefnogol.

Enillodd Vanessa Chambers y Wobr Ysbryd Gwaith Cymdeithasol ar gyfer yr arweiniad "I am me" a ddatblygwyd ganddi sy'n ymwneud ag arwain plant i ddeall eu taith drwy fywyd.

Derbyniodd Dîm Maethu Abertawe Dystysgrif Cyflawniad ar gyfer y Wobr Tîm Gwaith Cymdeithasol.

Roedd Vanessa Chambers, Amanda Etherington, Martin Chapman a Thîm Maethu Abertawe'n bresennol i dderbyn eu gwobrau.

## 77. CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.

### 1) Ymweliad Masnach â Tsieina

Nododd arweinydd y cyngor fod yntau, yr Arglwydd Faer a'r Arglwydd Faeres wedi bod ar ymweliad masnach ddiweddar â Tsieina. Roedd y daith yn cynnwys ymweliadau â Shanghai, Nantong a Wuhan. Nododd fod yr ymweliadau masnach wedi bod yn werth chweil ac y byddai ymweliadau gan gynrychiolwyr o Tsieina'n digwydd yn y flwyddyn newydd.

### 2) Tân yng Nghampws Tŷ Coch, Coleg Gŵyr Abertawe

Diolchodd arweinydd y cyngor i swyddogion y cyngor am eu gwaith gwych wrth gynorthwyo Coleg Gŵyr Abertawe yn dilyn y tân diweddar ar eu campws yn Nhŷ Coch.

### 3) Bargen Ddinesig

Rhoddodd arweinydd y Cyngor y diweddaraf am y Fargen Ddinesig.

## 78. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Rhestrir y cwestiynau hynny a oedd yn gofyn am ymateb ysgrifenedig isod:

1) Gofynnodd David Davies gwestiwn i Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yn ymwneud â Chofnod 82 “Adroddiad Blynyddol 2015/16 – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol”:

   i) Tudalen 69 "Dinas sy'n Gofalu", Paragraff 2.

   *"Mae'n arbennig o bleserus i ddarllen y geiriau bod ein dinas yn cael ei chydnabod fel rhywle llawn gobaith, sy'n noddfa o gasineb neu erledigaeth.*

*Ers Prydael, mae troseddau casineb wedi cynyddu, wedi'u hannog gan iaith gwleidyddion sy'n hyrwyddo eu hideoleg ddiegwyddor eu hunain. Rwyf wedi bod yn dyst i ddau achos o hiliaeth eithafol yr wyf yn mynd ar eu trywydd. Mae'r teimladau a ddaw o Stori Abertawe yn ysbrydoliaeth.*

*A allai'r Uwch-swyddogion a'r Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol, gael eu cydnabod fel enghreifftiau o'r hyn sy'n dda yn ein cymdeithas heddiw, ac a fydd modd datgelu pwy ydyn nhw yn ein cyfarfod nesaf?*"

Nododd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y byddai datganiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

79. **CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - CREST.**

Tynnwyd yr eitem yn ôl.

80. **DATGANIAD CYLLIDEB TYMOR CANOLIG 2016/17.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu perfformiad ariannol y flwyddyn gyfredol ynghyd ag asesiad wedi'i ddiweddaru o'r gofynion arbedion sy'n debygol dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rhoddodd Arweinydd y cyngor ei ymateb i'r datganiad ar ffurf cyflwyniad i'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** y dylid**:**

1) odi'r sylwadau a wnaed yn yr adroddiad a mabwysiadu'r rhagolwg adnoddau diwygiedig a'r rhagolwg o bwysau gwario o ran cynllunio'r gyllideb yn y dyfodol;

2) Nodi'r rhagolwg ariannol o ran y flwyddyn gyfredol a'r camau gweithredu y bydd eu hangen er mwyn symud tuag at gymeradwyo alldro refeniw mwy cytbwys ar gyfer 2015-2016.

3) Nodi'r sylwadau am y cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a amlinellir yn yr adroddiad, a pharhau i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol drwy bolisi sy'n cwmpasu'r holl asedau sy'n cael eu gwerthu.

81. **ADOLYGIAD O'R CRONFEYDD CYLLID WRTH GEFN A'R POLISI CRONFEYDD WRH GEFN.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Refeniw Wrth Gefn a chytuno ar unrhyw ailddosbarthiad o'r cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ofynion presennol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo ailddosbarthu'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:

| Categori'r Gronfa Wrth | Gweddill | Newid | Sefyllfa |
|---|---|---|---|

| **Gefn a Glustnodwyd** | **Cyfredol 31/3/15 £’000** | **Arfaethedig £’000** | **Argymelledig £’000** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Technegol/Trydydd Parti | 1,027 | 0 | 1,027 |
| Yswiriant | 14,092 | 0 | 14,092 |
| Gwerthuso swyddi | 0 | 2,500 | 2,500 |
| Trawsnewidiad ac effeithiolrwydd | 2,292 | 0 | 2,292 |
| Cronfeydd wrth gefn dirprwyedig ysgolion | 9,547 | 0 | 9,547 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfartalu | 52 | 0 | 52 |
| Symiau gohiriedig | 5,122 | 0 | 5,122 |
| Cronfeydd atgyweirio ac adnewyddu | 2,935 | 0 | 2,935 |
| Cyfran yr elw o eiddo a werthwyd | 1,121 | 0 | 1,121 |
| Cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a glustnodwyd | 4,840 | | 4,840 |
| Cronfeydd cyfalaf wrth gefn | 5,496 | 0 | 5,496 |
| **Cronfa wrth gefn costau ailstrwythuro** | **9,497** | **-2,500** | **6,997** |
| | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd** | **56,021** | **0** | **56,021** |

82. **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2015/16 - CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-2016 er gwybodaeth.

83. **AELODAETH PWYLLGORAU.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar lafar rai newidiadau ychwanegol hwyr i aelodaeth pwyllgorau.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i aelodaeth cyrff allanol yr awdurdod:

1) **Cytundeb rhwng Awdurdodau ar gyfer Gwastraff Bwyd**
Tynnu enw'r Cynghorydd M C Child;
Ychwanegu'r Cynghorydd A S Lewis.

**PENDERFYNWYD** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr P M Matthews a G J Tanner.
Ychwanegu'r Cynghorwyr J C Bayliss ac N M Woollard.

**2) Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ataliaeth a Gofal Cymdeithasol**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr C R Doyle a J A Hale.
Ychwanegu'r Cynghorwyr J C Bayliss ac E T Kirchner.

**3) Ymweliadau Rota'r Gwasanaethau Cymdeithasol**
Tynnu enwau'r Cynghorwyr V M Evans, B Hopkins a P B Smith.
Ychwanegu'r Cynghorwyr J C Bayliss, N M Woollard a Swydd Wag Grŵp Annibynnol.

**4) Panel Ymddiriedolwyr**
Tynnu enw'r Cynghorydd D J Lewis.
Ychwanegu Swydd Wag Grŵp Annibynnol.

84. <u>**CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.**</u>

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 1**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd M. H. Jones y canlynol:

*i) "Gŵyl Gerdd a Chelfyddydau Ryngwladol Abertawe. A yw'r toriadau ariannol wedi cael unrhyw effaith andwyol?"*

ii) "Allwch chi esbonio pam rydym yn talu £31,500 ar gyfer Arddangosfa Dylan Thomas, sy'n rhaglen a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a £143,000 ar gyfer Canolfan Dylan Thomas?"

*iii) "Mae Abertawe'n aelod o Rwydwaith Dinasoedd Iach Ewrop. Beth yw'r costau sy'n gysylltiedig â hyn a pha fudd a ddaw ohono i Abertawe?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio y darperir ymateb ysgrifenedig.

**b)** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y canlynol:

i) "Pam y mae naid fawr yn y cyllid ar gyfer Neuadd Brangwyn pan fo'r rhaglen gerddoriaeth wedi'i therfynu?"

ii) Pam y bu cynnydd yn y cyllid ar gyfer Canolfan Dylan Thomas pan ariennir yr arddangosfa ar wahân gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri?"

Nododd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 6**

Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones,

*"A yw'r arian a fenthycir yn cael ei gronni er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol? Ar gyfer beth y defnyddir y benthyciad hwn?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 7**

Gofynnodd y Cynghorydd I M Richards:

*"Mewn cyfarfod â'r gymuned yn ddiweddar iawn, nododd pedwar o uwch-reolwyr prosiect INNOGY y byddai'r prosiect (os caiff ei gyflawni o gwbl) yn 33.6 MW ac nid fel yr oeddent bob amser wedi dweud yn flaenorol sef 48MW (er ei fod yn dweud 32MW i 48MW ym mhrint mân cudd y Cais Cynllunio).*

*Gofynnaf am eglurhad a'r ffigurau gwirioneddol; nid hen ffigurau:*

*Dylai'r ffigur manwl gywir terfynol yn yr ateb i'r cyngor adlewyrchu'r ffigur gallu gwirioneddol a bennwyd yn awr sef 33.6MW.*

*Yn y cyfarfod cymunedol diweddar hwn, derbyniodd INNOGY hefyd, heb anghytuno, y byddai allbwn cyfartalog Mynydd y Gwair bellach yn 8MW yn unig.*

*Cadarnhaodd INNOGY hefyd y byddai gostwng y gallu cynhyrchu o 48MW i 33.6MW yn lleihau'r Gronfa Gymunedol o £240,000 i £168,000 y flwyddyn. (£72,000 yn llai!).*

*Nawr ceir y darn cymhleth, sy'n cael ei 'newid' gan yr holl gynhyrchwyr Ynni Adnewyddadwy, sef y ffaith fod ganddynt Gontractau Tystysgrif Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy. Mae hyn yn golygu bod y Grid Cenedlaethol Pŵer Trydan yn gorfod derbyn y cyfan maent yn ei gynhyrchu. Mae eu hallbynnau'n amrywio drwy'r amser oherwydd amodau gwynt a haul anwadal ac nid oes modd eu rhagweld yn union. Felly, yn syml, mae'r rhaid i ffynonellau pŵer eraill "ildio", a pho fwyaf y ffynonellau ynni adnewyddadwy y cawn, mwyaf*

*cymhleth yw'r sefyllfa. Mae gweithrediad pŵer glo yn rhy araf i ildio. Mae ynni niwclear yn rhy anniogel i'w drin yn ddi-hid, felly ni all ildio. Felly, pŵer nwy sy'n ildio am ei fod yn gallu ymateb yn gyflym i alw ac ymateb yn gyflym wrth gynyddu neu leihau pŵer.*

*Mae'r grid yn gynhwysor cymhleth iawn. Yn y chwe degau pan fûm yn gweithio yng Nghwmni Dur Cymru (SCOW), byddem o bryd i'w gilydd yn cael galwadau ffôn brys gan y Grid Cenedlaethol i atal ein melin oeri a rholio dur i ganiatáu i'r Grid gynnal llif yn ystod argyfwng pŵer. Yr enw ar hyn oedd colli llwyth. Roedd yr un felin hon yn defnyddio'r un faint o ynni a thref ddomestig maint Castell-nedd, a byddai SCOW yn derbyn iawndal. Nawr mae ganddynt "ynni troelli wrth gefn", cronfa wrth gefn wastraffus a chostus.*

*Felly beth gaiff ei wneud; maen nhw'n arafu'r mewnbwn hawsaf ei reoli - pŵer nwy i ganiatáu derbyn y rhai adnewyddiadau dan eu contractau rhwymo. Y darn cymhleth yw bod y Datblygwyr Adnewyddadwy ar lefelau presennol eu hallbynnau yn rhoi ystadegau arbedion carbon fel pe baent yn disodli pŵer carbon pur glo (neu'r cymysgedd o bŵer). Mae'r arbedion carbon wedyn yn cael eu chwyddo fel ffigurau camarweiniol. Y gwirionedd yw eu bod yn dadleoli NWY sy'n cynnwys hydrogen yn bennaf a llawer llai o garbon, ac yn cynhyrchu ager yn bennaf ac nid carbon. Felly roedd fy nghwestiwn yn gofyn am y ffigurau dadleoli carbon gwirioneddol yn ôl gwir sefyllfa'r Grid "sigledig".*

*Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei ddeall. Dyna pam dewisais y "balŵn" fel enghraifft. Dyna pam maen nhw'n nawr yn gobeithio adeiladu Gorsaf Bŵer Nwy rhwng Ward Mawr a Llangyfelach i losgi nwy o Iran a Rwsia drwy Aberdaugleddau i sefydlogi'r grid sigledig fel y daw mwyfwy o dyrbinau gwynt a phaneli solar a llanwau adnewyddadwy i mewn i'r Grid. Ac eithrio ynni'r llanw mae'r ddau arall yn anwadal ac yn anrhagweladwy - yn y tymor byr neu'r tymor hir.*

*Hefyd wrth roi ystadegau dadleoli carbon, maent bob amser yn eu cymharu â gallu neu uchafswm ynni adnewyddadwy a byth â realiti'r allbynnau cyfartalog gwirioneddol - 25% ar gyfer gwynt a 10% ar gyfer solar ac nid yr anwiredd o 100% ar gyfer y ddau! Gor-ddweud neu anwiredd enfawr!"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 8**

Gofynnodd y Cynghorydd M. H. Jones y canlynol:

*"A all Aelod y Cabinet roi diffiniad syml o "Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn y darperir ymateb ysgrifenedig.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Ni chyflwynwyd unrhyw 'Gwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'.

85. **RHYBUDD O GYNNIG - CYNGHORWYR R C STEWART, J E BURTONSHAW, C RICHARDS, J P CURTICE, D W W THOMAS, A S LEWIS, J E C HARRIS, J A HALE, M THOMAS, C ANDERSON, M C CHILD & R FRANCIS-DAVIES.**

Cynigiwyd y cynnig canlynol gan y Cynghorwyr J E Burtonshaw ac R C Stewart.

***"Sicrhau bod y cyfrifiad nesaf yn cyfrif ar gyfer cymuned y lluoedd arfog yma***

***Cynnig i gefnogi "Count Them In' (Cyfrifwch Nhw)***

*Noda'r cyngor:*

1. *Ei rwymedigaethau i gymuned y Lluoedd Arfog yn Ninas a Sir Abertawe fel y'u corfforir yng Nghyfamod y Lluoedd Arfog; na ddylai cymuned y Lluoedd Arfog wynebu anfantais o ran y gwasanaethau a ddarperir a bod ystyriaeth arbennig yn briodol mewn rhai achosion, yn enwedig i'r rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf.*

2. *Absenoldeb ystadegau penodol a chynhwysfawr am faint neu ddemograffig cymuned y Lluoedd Arfog yn Ninas a Sir Abertawe. Mae hyn yn cynnwys personél rheolaidd ac wrth gefn, cyn filwyr a'u teuluoedd.*

3. *Byddai argaeledd data o'r fath yn cynorthwyo'r cyngor, asiantaethau partner lleol, y sector gwirfoddol a'r Llywodraeth genedlaethol yn fawr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion unigryw cymuned y Lluoedd Arfog yn Ninas a Sir Abertawe.*

*O ystyried yr uchod, mae'r cyngor yn cynnig cefnogi a hyrwyddo galwad y Lleng Brydeinig Frenhinol i gynnwys maes newydd yng nghyfrifiad 2012 sy'n ymwneud â gwasanaeth milwrol ac aelodaeth cymuned y Lluoedd Arfog. Rydym hefyd yn galw ar Senedd y DU, a fydd yn cymeradwyo holiadur terfynol y cyfrifiad drwy ddeddfwriaeth yn 2019, i sicrhau bod cyfrifiad 2012 yn cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud â chymuned y Lluoedd Arfog."*

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynnig fel yr amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.08 pm

**CADEIRYDD**